

Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynadledda drwy Zoom P Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 15 Ebrill 2024 Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30 0300 200 6565
SeneddDCC@senedd.cymru

O bell

- 1 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.22 i ethol Cadeirydd dros dro ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor
(13.30 – 13.35)
- 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
(13.35)
- 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3
(13.35 – 13.40)

Offerynnau’r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

- 3.1 SL(6)466 – Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2024

(Tudalennau 1 – 3)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 1 – Adroddiad drafft



**3.2 SL(6)470 – Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru)
(Diwygio) 2024**

(Tudalennau 4 – 6)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 2 – Adroddiad drafft

**3.3 SL(6)473 – Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau
Polychlorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 7 – 8)

[Rheoliadau](#) (Saesneg yn unig)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 3 – Adroddiad drafft

**4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r
Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes
(13.40 – 13.45)**

**4.1 SL(6)461 – Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022
(Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 9 – 11)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 4 – Adroddiad

LJC(6)-11-24 – Papur 5 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol
(13.45 – 13.50)**

5.1 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Grwpiau Rhyngweinidogol

(Tudalennau 12 – 13)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 6 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol:
Cyllid: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, 19 Mawrth 2024

- 5.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol etc.) 2024 Rheoliadau 2024**

(Tudalennau 14 – 15)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 7 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd – 18 Mawrth 2024

- 5.3 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) (Rhif 2) 2024**

(Tudalennau 16 – 17)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 8 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 19 Mawrth 2024

6 Papurau i'w nodi

(13.50 – 14.00)

- 6.1 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Datganoli plismona**

(Tudalennau 18 – 19)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 9 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 18 Mawrth 2024

- 6.2 Gohebiaeth â'r Pwyllgor Busnes: Adroddiad y Pwyllgor ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad**

(Tudalennau 20 – 21)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 10 – Llythyr gan y Pwyllgor Busnes, 20 Mawrth 2024

LJC(6)-11-24 – Papur 11 – Llythyr at y Pwyllgor Busnes, 15 Mawrth 2024

6.3 Gohebiaeth ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad

(Tudalennau 22 – 25)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 12 – Llythyr ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 11 Ebrill 2024

LJC(6)-11-24 – Papur 13 – Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 19 Mawrth 2024

6.4 Gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol, at Gadeirydd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi: Craffu ar Fframweithiau Cyffredin

(Tudalennau 26 – 29)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 14 – Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol, at Gadeirydd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, 21 Mawrth 2024 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-11-24 – Papur 15 – Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol, gan Gadeirydd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, 5 Mawrth 2024 [Saesneg yn unig]

6.5 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–2025

(Tudalennau 30 – 32)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 16 – Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid, 22 Mawrth 2024

6.6 Gohebiaeth gan Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at Gadeirydd Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi: Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol

(Tudalennau 33 – 48)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 17 – Llythyr gan Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at Gadeirydd Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, 25 Mawrth 2024

6.7 Datganiad ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Diwygiadau i ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU i gefnogi sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

(Tudalennau 49 – 50)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 18 – Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, 27 Mawrth 2024

6.8 Gohebiaeth yn ymwneud â chanslo pumed cyfarfod Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE

(Tudalennau 51 – 55)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 19 – Llythyr gan Gynullydd Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant at Syr Oliver Heald AS, Cyd-Gadeirydd Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE, 26 Mawrth 2024 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-11-24 – Papur 20 – Llythyr at Syr Oliver Heald AS, Cyd-Gadeirydd Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE, 20 Mawrth 2024 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-11-24 – Papur 21 – Llythyr at Nathalie Loiseau ASE, Cyd-Gadeirydd Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE, 20 Mawrth 2024 [Saesneg yn unig]

6.9 Gohebiaeth ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio)

(Tudalennau 56 – 58)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 22 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 8 Ebrill 2024

LJC(6)-11-24 – Papur 23 – Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 19 Mawrth 2024

6.10 Gohebiaeth ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

(Tudalennau 59 – 77)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 24 – Llythyr ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, 11 Ebrill 2024

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.00)

8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig

(14.00 – 14.10)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 25 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad

(14.10 – 14.20)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 26 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

**10 Ymchwiliad gan Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi:
Llywodraethu'r Undeb: Ymgynghori, Cydweithio a Chydsyniad
Deddfwriaethol – Trafod y cyflwyniad drafft**

(14.20 – 14.30)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-11-24 – Papur 27 – Cyflwyniad drafft [Saesneg yn unig]

11 Blaenragalen waith

(14.30 – 14.40)

SL(6)466 – Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2024

Cefndir a Diben

[Uned Cyfeirio Disgyblion](#) yw math o ysgol a sefydlir gan awdurdod lleol sydd â dyletswydd i ddarparu addysg addas i blant a phobl ifanc na allant, oherwydd gwaharddiad, salwch neu fel arall, gael addysg o'r fath mewn ysgol brif ffrwd.

Mae pwyllgor rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion yn chwarae rhan strategol a chynghorol wrth nodi a chynnal gweledigaeth, nodau ac amcanion yr Uned Cyfeirio Disgyblion ar y cyd â'r awdurdod lleol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio *Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003* ("**Rheoliadau UCD 2003**") er mwyn:

- a) rhagnodi mai pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion ("UCD"), yn hytrach na'r awdurdod lleol sy'n ei chynnal, fydd y corff cyfrifol ar gyfer ystyried a ddylid derbyn disgybl sydd wedi'i wahardd yn ôl,
- b) ei gwneud yn ofynnol i'r corff cyfrifol ystyried a ddylai disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol gael eu derbyn yn ôl, yn ychwanegol at y rhai sydd wedi'u gwahardd am gyfnod penodedig mewn rhai achosion.

Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y 4 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Yn rheoliad 6(4)(b), ym mharagraff (i), disgrifir lleoliad y testun presennol i'w ddiwygio yn rheoliad 7(2)(b) o Reoliadau UCD 2003 fel "*yn y geiriau o flaen is-baragraff (b)(i)*".



Fodd bynnag, mae geiriau agoriadol rheoliad 6(4)(b) eisoes wedi datgan bod y diwygiad yn cael ei wneud "yn is-baragraff (b)". Felly, dylai lleoliad y testun i'w ddiwygio fod wedi'i ddisgrifio'n fwy cywir fel "yn y geiriau o flaen paragraff (i)".

2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae rheoliad 10 yn diwygio'r Atodlen i *Reoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003* (yr "**Atodlen Gwahardd Ysgolion a Gynhelir**").

Yn benodol, mae rheoliad 10(3) yn addasu'r cyfeiriad at reoliad "7(1)" ym mharagraff 1(1) o'r Atodlen Gwahardd Ysgolion a Gynhelir fel ei bod yn darllen fel pe bai'n cyfeirio at reoliad "8(1)".

Nid yw'n ymddangos bod y diwygiad hwn yn ateb diben gan fod paragraff 3 yn yr Atodlen i Reoliadau UCD 2003 eisoes yn darparu ar gyfer y newid hwn ym mhob man y mae'n digwydd yn yr Atodlen Gwahardd Ysgolion a Gynhelir.

3. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft

Er bod hwn yn bwynt ar wahân i bwynt adrodd 2 (yn union uchod), dylid ei ystyried ar y cyd ag ef.

Yn rheoliad 10(3), ym mharagraff 1A newydd a fewnosodwyd yn yr Atodlen i Reoliadau UCD 2003, yn is-baragraff (a), mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg.

Yn y testun Saesneg, y cyfeiriad presennol a addasir yw "7(1)" ond yn y testun Cymraeg gwneir yr addasiad at gyfeiriad at "6(1)". Mae hyn oherwydd gwall hanesyddol sy'n bodoli yn nhestun Cymraeg paragraff 1(1) o'r Atodlen Gwahardd Ysgolion a Gynhelir.

Felly, mae'r diwygiad a wneir gan y testun Cymraeg yn ceisio addasu'r cyfeiriad anghywir hwnnw at "6(1)" fel ei fod hefyd yn cael ei ddarllen fel "8(1)". Fodd bynnag, nid yw hyn yn ymddangos yn ddull priodol gan ei fod yn methu â mynd i'r afael â'r gwall presennol yn nhestun Cymraeg paragraff 1(1) o'r Atodlen Gwahardd Ysgolion a Gynhelir.

4. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft

Yn rheoliad 10(7), yn y paragraff 6 newydd a fewnosodir yn yr Atodlen i Reoliadau PRU 2003, yn y testun Cymraeg, mae "*there is substituted*" wedi cael ei ei gyfieithu fel "rhodder". Fodd bynnag, mae'r addasiadau presennol yn nhestun Cymraeg yr Atodlen honno yn gyffredinol wedi defnyddio ffurf ychydig yn wahanol ar y ferf honno, sef "rhoddir", sydd hefyd wedi'i ddefnyddio ym mharagraff 1A newydd a fewnosodir gan reoliad 10(3) o'r Rheoliadau hyn.

Felly, nid yw'r cyfieithiad o'r paragraff 6 newydd yn gyson ag arddull y testun Cymraeg yn yr Atodlen wreiddiol. Mae'r canllawiau drafftio ym mharagraff 7.30(1) o Ddrafftio Deddfau i



Gymru yn argymhell y dylai diwygiadau fod yn gyffredinol gyson yn eu harddull â'r testun gwreiddiol.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn:

5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad oes ymgynghoriad wedi'i gynnal mewn perthynas â'r rheoliadau hyn oherwydd:

"[...] bod awdurdodau lleol ac athrawon sy'n gyfrifol am UCDAu wedi ein hysbysu bod arferion presennol yn unol â'r diwygiadau arfaethedig".

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt technegol hwn. Fodd bynnag, gan nad yw'r cyfeiriad yn anghywir a chan fod lleoliad y testun sydd i'w ddiwygio yn glir iawn, nid ystyrir bod angen cywiro hyn er mwyn osgoi camarwain darllenwyr.

Pwynt Craffu Technegol 2: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad oedd yn gwbl angenrheidiol i reoliad 10(3) addasu'r cyfeiriad at reoliad "7(1)". Fodd bynnag, nid ystyrir bod angen cywiro hyn er mwyn osgoi camarwain darllenwyr.

Pwynt Craffu Technegol 3: Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gwall yn nhestun Cymraeg yr Atodlen i Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003 ("y Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir"). Nid yw'r pwynt adrodd yn ymwneud â gwall yn Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau UCD 2024") ond â gwall yn y Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir. Diben ac effaith Rheoliadau UCD 2024 yw newid y gyfraith mewn perthynas ag unedau cyfeirio disgyblion. Byddwn yn gwneud y diwygiad angenrheidiol i'r Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir er mwyn cywiro'r gwall y tro nesaf y bydd y Rheoliadau hynny yn cael eu diwygio. Disgwylir i hynny ddigwydd yn ddiweddarach eleni.

Pwynt Craffu Technegol 4: Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y byddai'r ffurf "rhoddir" ar y ferf wedi bod yn fwy cyson o ran arddull â'r testun gwreiddiol, yn hytrach na'r ffurf "rhodder". Fodd bynnag, ystyriwn fod ystyr y term yn glir fel na fyddai'r darlennydd yn cael ei gamarwain.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
20 Mawrth 2024



Eitem 3.2

SL(6)470 - Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2024

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") i ddiwygio'r meini prawf cymhwysra ar gyfer cymorth grant sydd ar gael i aelwydydd incwm isel sy'n byw yn y cartrefi lleiaf effeithlon o ran ynni yng Nghymru (gradd EPC o E neu lai) drwy:

- ehangu cymhwysra i aelwydydd incwm is nad ydynt yn derbyn budd-daliadau sy'n destun prawf modd;
- cynnwys lwfans ceisio gwaith ar y rhestr o fudd-daliadau cymwys sy'n destun prawf modd;
- ymestyn cymhwysra i anheddau sydd â dosbarthiad Tystysgrif Perfformiad Ynni o D neu lai lle mae'r ceisydd naill ai ar fudd-daliadau sy'n destun prawf modd neu o aelwyd incwm is a bod gan yr ymgeisydd gyflwr anadlol cronig, cyflwr cylchrediad y gwaed cronig neu gyflwr iechyd meddwl cronig; a
- dileu'r cyfyngiad ar ailadrodd ceisiadau gan agor y posibilrwydd o roi grantiau pellach i anheddau cymwys sydd wedi elwa o'r blaen ar gael grantiau o dan Rheoliadau 2011.

Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

- 1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**



Mae rheoliad 4(b) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad o "*budd-dal sy'n destun prawf modd*" yn rheoliad 2 o Reoliadau 2011. Mae'r diffiniad presennol yn Rheoliadau 2011, yn y testun Cymraeg, yn defnyddio llythrennau'r wyddor Saesneg (yn hytrach na'r wyddor Gymraeg) i rifo paragraffau o ganlyniad i'r amnewid a wneir gan reoliad 3 o Reoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2013 (O.S. 2013/2843 (Cy.270)). Mae'r diwygiad a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau â'r patrwm o ddefnyddio'r wyddor Saesneg yn y testun Cymraeg.

Gallai'r Rheoliadau hyn fod wedi bod yn gyfle i gywiro'r gwall hwnnw, yn hytrach na pharhau i ddefnyddio'r wyddor Saesneg ar gyfer rhaniadau lle y dylid defnyddio'r wyddor Gymraeg.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn rhoi'r geiriau "*is-baragraff (i)*" yn lle testun yn rheoliad 9(1)(a)(ii) o Reoliadau 2011. Fodd bynnag, mae'r disgrifiad hwn yn anghywir ac, yn lle hynny, dylai gyfeirio at "*paragraff (i)*".

Yn ogystal, mae rheoliad 9(1)(a) o Reoliadau 2011 yn cynnwys gwall hanesyddol, sef cyfeiriad anghywir at "*paragraff (b)*", yn hytrach nag "*is-baragraff (b)*". Gallai'r Rheoliadau hyn fod wedi bod yn gyfle i gywiro'r gwall hwnnw.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn rheoliad 7 yn defnyddio'r term "*cais gweithfeydd*". Fodd bynnag, nid yw'r term hwnnw wedi'i ddiffinio at ddiben y Rheoliadau hyn, er iddo gael ei ddiffinio yn rheoliad 2 o Reoliadau 2011.

Er ein bod o'r farn nad yw'r diffyg diffiniad hwn yn ymyrryd â dehongliad y ddarpariaeth drosiannol honno, a ystyriwyd diffinio'r term hwnnw at ddibenion y Rheoliadau hyn (er enghraifft, drwy gyfeirio at reoliad 2 o Reoliadau 2011), er mwyn cynorthwyo hygyrchedd?

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:

Nodir y pwynt hwn. Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw ddiwygiad ar hyn o bryd. Mae rheoliad 2 o'r prif Reoliadau wedi ei ddrafftio yn y ffordd hon ers 2013 ac nid yw'r drafftio, yn ein barn ni, yn creu unrhyw ansicrwydd na diffyg eglurder i'r darllenydd fel bod angen ei ddiwygio mewn unrhyw ffordd.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:

Nodwn y pwyntiau craffu ar rinweddau sy'n ymwneud â rheoliad 6 o'r Rheoliadau a'r gwall hanesyddol yn rheoliad 9(1)(a) o'r prif Reoliadau. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod y drafftio presennol yn creu unrhyw ansicrwydd na diffyg eglurder i'r darllenydd fel bod angen



ei ddiwygio mewn unrhyw ffordd ar hyn o bryd, ond caiff y gwallau hyn eu cywiro y tro nesaf y caiff y prif Reoliadau eu diwygio.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:

Nodir y pwynt hwn. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y drafftio yn glir ac nad oes angen ei ddiwygio mewn unrhyw ffordd.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

21 Mawrth 2024



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—
Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 6

Legislation, Justice and Constitution Committee

SL(6)473 – Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2024

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn egluro iaith dechnegol mewn deddfwriaeth ddomestig bresennol ar gyfer biffenylau polyclorinedig. Yn 2020, diwygiwyd Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) 2000 ("Rheoliadau 2000") i adlewyrchu Confensiwn Stockholm newydd a gofyniad yr UE i gael gwared ar offer sy'n cynnwys cyfeintiau o fiffenylau polyclorinedig dros drothwy penodol cyn diwedd 2025. Yn dilyn hynny, tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod rhywfaint o amwysedd yn yr iaith a gyflwynwyd i Reoliadau 2000 gan y diwygiadau hynny yn 2020.

Ystyrir bod y diwygiadau a wnaed gan Reoliadau 2024 yn angenrheidiol er mwyn rhoi eglurder i randdeiliaid ynghylch cyfeiriadau at gyfeintiau o fiffenylau polyclorinedig mewn offer, drwy gael gwared ar unrhyw amwysedd ynghylch pa ddarnau o offer y mae'n rhaid rhoi'r gorau i'w defnyddio erbyn terfyn amser 2025.

Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau gerbron Senedd Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig. Gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn datgan fel a ganlyn (ym mharagraffau 2.2 a 2.3):

Mae Rheoliadau 2024 yn cael eu gwneud ar sail gyfansawdd. Mae hynny cael ei wneud i gynnal llyfr statud cyson ar gyfer busnesau sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr. Nid oes gwahaniaeth o ran polisi, ac mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan Reoliadau 2024 yn rhai i offeryn statudol Saesneg presennol sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr. Mae'r diwygiadau



yn egluro ystyr y rheoliadau presennol ac nid ydynt yn gyfystyr â newid polisi ar gyfer naill ai Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU.

Gan y bydd Rheoliadau 2024 yn destun craffu gan Senedd y DU, ni ystyrir ei fod yn rhesymol ymarferol i Reoliadau 2024 gael eu gwneud na'u gosod yn ddwyieithog.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

8 Ebrill 2024



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 8

Legislation, Justice and Constitution Committee

SL(6)461 – Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) (Diwygio) 2024

Cefndir a Diben

Gwnaed Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) 2023 (“Gorchymyn 2023”) ar 21 Awst 2023 ac mae’n cychwyn darpariaethau penodol o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (“Deddf 2022”).

Mae Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) (Diwygio) 2024 (“y Gorchymyn”) yn diwygio Gorchymyn 2023 i:

- Hepgor erthygl 4(d), a fyddai’n dwyn i rym ar 1 Ebrill 2024 ddarpariaethau sy’n ymwneud ag aelod cyswllt staff y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (“y Comisiwn”), a
- Hepgor erthygl 4(e), a fyddai’n dwyn i rym ar 1 Ebrill 2024 ddiwygiadau i Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac i reoliad 3(4) o Reoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 6) 2017 a oedd yn ganlyniadol ar ddiddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Yn ôl y Nodyn Esboniadol, nid oes angen y darpariaethau hyn ar 1 Ebrill 2024 oherwydd na fydd gan y Comisiwn lawer o staff ar y dyddiad hwnnw, ac oherwydd na fydd Cyngor Cyllido Addysgu Uwch Cymru wedi’i ddiddymu ar y dyddiad hwnnw.

Y weithdrefn

Dim gweithdrefn.

Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â’r Gorchymyn hwn.

1. Effaith y Gorchymyn yw gohirio’r dyddiad y daw darpariaethau penodol o Ddeddf 2022 sy’n ymwneud â sefydlu’r Comisiwn a diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i rym. Nodwn fod Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi cyhoeddi Datganiadau Ysgrifenedig ar [29 Tachwedd 2023](#) ac ar [24 Ionawr 2024](#) a oedd yn darparu diweddariadau o ran y Comisiwn, ond nid yw’r datganiadau hyn yn rhoi eglurhad clir ar fod angen gwneud y Gorchymyn hwn i ddirymu’r darpariaethau cychwyn penodedig yng Ngorchymyn 2023.

Nid ydym yn sicr a yw Aelodau o’r Senedd a rhanddeiliaid perthnasol eraill wedi cael eglurhad drwy ddulliau eraill. Felly, gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro’r rhesymau dros wneud y Gorchymyn, ac yn benodol:



- Y rhesymau dros unrhyw oedi o ran staffio'r Comisiwn, a
- Y rhesymau dros beidio â diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru erbyn 1 Ebrill 2024 fel y rhagwelwyd pan wnaed Gorchymyn 2023.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Mawrth 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 10

Legislation, Justice and Constitution Committee

Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) (Diwygio) 2024

Pwynt Craffu 1: Mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (PPIA) ym mis Tachwedd 2022, tynnodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg sylw at y ffaith yr aed ati i weithredu mewn ffordd raddol yn seiliedig ar dair egwyddor allweddol:

- Sicrhau parhad y ddarpariaeth ar gyfer y sector heb amharu mewn ffordd amlwg ar ddarparwyr na dysgwyr wrth i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (y Comisiwn) gael ei sefydlu,
- Osgoi rhoi baich diangen ar ddarparwyr yn ystod y cyfnod gweithredu, er enghraifft rheoli a chyd-drefnu lefel ac amseru'r ymgysylltu a'r ymgynghori ffurfiol,
- Trefnu bod y dyletswyddau strategol, a nodir yn Rhan 1 o'r Ddeddf, yn ffurfio sylfaen greiddiol gwaith y Comisiwn o'r dechrau'n deg, gan gynnwys paratoi a chyhoeddi datganiad o flaenoriaethau Gweinidogion Cymru.

Ar 24 Ionawr, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddatganiad ysgrifenedig, y gwnaeth hefyd gyfeirio ato pan fynychodd y Pwyllgor PPIA ar 28 Chwefror, yn cadarnhau y byddai'r pwerau deddfwriaethol bellach yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiwn ar 1 Awst 2024, gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn parhau i arfer ei swyddogaethau rheoleiddio a chyllido llawn tan hynny. Cytunwyd ar y dyddiad diwygiedig er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth o ran yr amgylchedd cyfreithiol a rheoleiddiol presennol, sydd wedi bod yn fwy cymhleth nag a ddisgwyliwyd i ddechrau pan gafodd Gorchymyn 2023 ei wneud.

Er bod y dyddiad gweithredol ar gyfer y Comisiwn wedi ei ddiwygio, bydd yn parhau i weithio ar ddatblygu ei gynllun strategol cyntaf a pharatoadau ar gyfer system reoleiddio newydd addysg drydyddol. Er y bydd staff bellach yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiwn ar 1 Awst 2024, mae swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda CCAUC a'r Comisiwn i sicrhau bod trefniadau staffio addas ar waith i gynnal momentwm a sicrhau parhad i'r sector. Bwriedir i'r gwaith paratoi hanfodol hwn gefnogi trosglwyddiad esmwyth mewn perthynas â'r Comisiwn yn dod yn weithredol, gan sicrhau nad oes unrhyw darfu amlwg ar ddysgwyr na darparwyr.

Mae'r dyddiad gweithredol diwygiedig yn unol â'r egwyddorion gweithredu a nodir uchod ac mae'n ceisio taro cydbwysedd rhwng darparu amser priodol i sicrhau bod y newidiadau i'r dirwedd ddeddfwriaethol yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus a hefyd sicrhau bod y trefniadau newydd yn effeithiol ar lawr gwlad cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Mae rhanddeiliaid wedi croesawu hyn ac maent yn cydnabod bod trosglwyddiad esmwyth i ddysgwyr, darparwyr a staff yn allweddol i gyflawni ein gweledigaeth arloesol ac uchelgeisiol ar gyfer sector addysg drydyddol ac ymchwil Cymru.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

19 Mawrth 2024

Annwyl Huw

Yn dilyn fy llythyr diweddar yn rhoi gwybod ichi am gyfarfod rhithwir eithriadol y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 14 Mawrth, hoffwn rannu â chi ychydig o'r hyn a drafodwyd. Bydd datganiad yn cael ei gyhoeddi'n fuan hefyd: [Datganiadau y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

Yn bresennol gyda mi yn y cyfarfod roedd y Gwir Anrh Laura Trott MBE AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, Shona Robison ASA, Dirprwy Brif Weinidog yr Alban ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, a Dr Caoimhe Archibald ACD, Gweinidog Cyllid Gogledd Iwerddon.

Yn ystod ein trafodaethau ar Gyllideb y DU, amlygais y goblygiadau i Gymru, gan dynnu sylw yn arbennig at fy mhryderon ynghylch y diffyg cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Pwysleisiais yr angen am sicrwydd cynnar o unrhyw gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn 2024-25, yn arbennig mewn perthynas â chyflogau'r sector cyhoeddus. Gwnaethom hefyd drafod pwysigrwydd sicrhau eglurder ynghylch cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer cynnal adolygiad o wariant er mwyn helpu i flaengynllunio ein cyllideb.

Yn yr un modd â chyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor, ailadroddais yr achos dros hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol, gan dynnu sylw at ein profiad o broses ddiweddaraf Amcangyfrifon Atodol y DU. Gwnes i sicrhau ymrwymiad i swyddogion ddatblygu cynigion ar gyfer gwella prosesau cyllido yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys ystyried prosesau cyfnewid cyfalaf yn adnoddau, i'w trafod yn ystod cyfarfod pellach o'r Pwyllgor.

Yn olaf, nodais y byddai Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cael cyllid drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro i'w weinyddu'n uniongyrchol. Ailadroddais fod ein safbwynt yn parhau, hynny yw, yn unol â'n setliad datganoli, dylid dychwelyd cyllid ar gyfer buddsoddi rhanbarthol i Lywodraeth Cymru i'w weithredu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 12
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Rebecca Evans." The signature is written in a cursive, flowing style.

Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Minister for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

18 Mawrth 2024

Annwyl Huw,

Cyfeiriaf at fy llythyr atoch dyddiedig 5 Chwefror. Dymunaf hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi cydsynio i'r Ysgrifennydd Gwladol osod y Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol etc.) 2024 o ran Cymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld [sub-ld16411-w.pdf \(senedd.cymru\)](#).

Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Mae'r Rheoliadau yn cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban.

Gwnaed y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a ddirprwyir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Erthygl 85 ac Erthygl 83A(2) o Reoliad Cynhyrchion Bioleiddiadol (EU) Rhif 528/2012 Prydain Fawr (GB BPR) (addasu i gynnydd gwyddonol a thechnegol). Roedd yr Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a chafodd ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 13 Mawrth 2024. Y dyddiad cychwyn yw 06 Ebrill 2024.

Dim ond i'r Ysgrifennydd Gwladol y mae deddfwriaeth bresennol yn darparu pŵer i wneud rheoliadau ond mae gofyniad am gydsyniad, ac er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, yn yr achos hwn, ystyriwyd ei bod yn briodol i hanfod y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru am fod y Rheoliadau yn dechnegol eu naws ac nad ydynt yn arwain at unrhyw newid o ran polisi. Nid oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y mater hwn. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid oes darpariaeth sy'n caniatáu imi ddeddfu ar wahân i Gymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

A handwritten signature in cursive script that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a light grey or blue ink on a white background.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) (Rhif 2)2024
DYDDIAD	19 Mawrth 2024
GAN	Lesley Griffiths AS, Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) (Rhif 2) 2024 ("Rheoliadau 2024")

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno gwybod ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnwyd am ganiatâd ar 15 Ionawr 2024 gan yr Arglwydd Douglas-Miller, y Gweinidog Bioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, i wneud offeryn statudol dan y teitl Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) (Rhif 2) 2024. Mae Rheoliadau 2024 yn gymwys mewn perthynas â Phrydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Bydd Rheoliadau 2024 yn cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 36(1)(a)a 36(1)(b) y adran 51(a)o Ddeddf Pysgodfeydd 2020.

Mae'r offeryn hwn yn gwneud diwygiadau i gyfraith ganlynol yr UE a ddargedwir:

Rheoliad (EU) 2016/1627 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gynllun adfer amflwydd ar gyfer tiwna asgell las yn Nwyrain yr Iwerydd a Môr y Canoldir.

Rhoddwyd caniatâd gan fod y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan y Confensiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd (y Confensiwn). Er mwyn iddynt fod yn effeithiol, ystyrir iddynt fod yn gymwys ar sail y DU ac i bob cwch sy'n gweithredu yn nyfroedd y DU neu ble bynnag y bônt.

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 14/03/2024 a byddant yn dod i rym ar 7/06/2024.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Cyhoeddi'r adroddiad 'Paratoi ar gyfer Datganoli Plismona yng Nghymru'
DYDDIAD	18 Mawrth 2024
GAN	Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

Mae cymryd camau tuag at ddatganoli cyfiawnder a phlismona yn un o'r ymrwymadau yn [Rhaglen Lywodraethu 2021-26](#) Llywodraeth Cymru. Fel y gŵyr yr Aelodau, mae hyn yn adlewyrchu argymhelliad unfrydol yn 2019 gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ([Comisiwn Thomas](#)), a gynhaliodd yr ymchwiliad mwyaf erioed i sut y mae'r system gyfiawnder yn gweithredu yng Nghymru.

Roedd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ([Comisiwn Silk](#)), a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU ac a gyflwynodd ei adroddiad yn 2014 ac, yn fwy diweddar, y [Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru](#), ill dau o blaid datganoli plismona.

Wrth fwrw ymlaen â'r achos dros ddatganoli plismona, mae'n bwysig deall yr heriau cysylltiedig a sut y gellid ymateb iddynt. Fis Tachwedd y llynedd, cafodd tîm annibynnol ei gomisiynu gennym i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddeall y manteision, y cyfleoedd, yr heriau a'r risgiau.

Mae'r tîm, dan arweiniad cyn Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, Carl Foulkes QPM, wedi casglu safbwyntiau gan y rhai sydd ag arbenigedd ym maes plismona yng Nghymru; gyda phedwar comisiynydd heddlu a throsedd etholedig Cymru a chyda'r Fonesig Vera Baird yn rhinwedd ei swydd fel ymgynghorydd arbenigol annibynnol i Lywodraeth Cymru ar ddatganoli cyfiawnder.

Heddiw, rydym yn cyhoeddi'r [adroddiad](#), sy'n edrych ar opsiynau posibl ar gyfer gwasanaeth plismona datganoledig yng Nghymru, gan ystyried yr ystyriaethau ymarferol sy'n gysylltiedig â gweithredu datganoli.

Nid yw'r adolygiad yn mynegi barn am rinweddau datganoli plismona. Yn hytrach, mae'n egluro – yn fanylach nag sydd wedi'i wneud o'r blaen – y materion y byddai angen eu hystyried wrth wneud hynny. Mae'n gyfraniad hynod werthfawr i'n dealltwriaeth, ac rydym yn ddiolchgar i Carl Foulkes ac i bawb a weithiodd i'w gynorthwyo i lunio'r adroddiad hwn.

Rydym yn ddiolchgar hefyd i bawb a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr adroddiad. Yn benodol, hoffem ddiolch i brif gwnstabiliaid heddluoedd Cymru am helpu'r tîm adolygu i nodi'r materion y byddai angen mynd i'r afael â nhw.

Mae'r adroddiad yn cynnwys camau nesaf penodol i Lywodraeth Cymru eu hystyried. Bydd hyn yn sail i'n hystyriaethau yn y dyfodol a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid yn yr heddlu.

Byddwn hefyd yn parhau i fwrw ymlaen â gwaith yn y meysydd eraill yr ydym wedi nodi eu bod yn addas ar gyfer datganoli, sef cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf. Mae [Sicrhau Cyfiawnder i Gymru: adroddiad cynnydd](#), a gyhoeddwyd fis diwethaf, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith yn y meysydd hyn.

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

20 Mawrth 2024

**Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad
a Rhydd-ddaliad**

Annwyl Huw,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 15 Mawrth yn tynnu ein sylw at yr argymhelliad yn eich adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad, sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Busnes:

Argymhelliad 3. Efallai y bydd y Pwyllgor Busnes am adolygu Rheol Sefydlog 29.1 fel rhan o'i waith parhaus o ran y broses cydsyniad deddfwriaethol."

Gwnaethom drafod yr argymhelliad yn ein cyfarfod ar 19 Mawrth ac rwy'n ysgrifennu i gadarnhau bod y Pwyllgor Busnes yn hapus i dderbyn yr argymhelliad ac i gadarnhau y bydd Rheol Sefydlog 29.1 yn cael ei drafod fel rhan o waith a drefnwyd y Pwyllgor Busnes mewn perthynas â'r broses cydsyniad deddfwriaethol.

Cofion cynnes

Y Gwir Anrh. Elin Jones AS

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

15 Mawrth 2024

Annwyl Lywydd

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Lesddaliadau a Rhydd-ddaliadau

Rwy'n ysgrifennu i dynnu eich sylw at adroddiad y Pwyllgor ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Lesddaliadau a Rhydd-ddaliadau, sydd bellach wedi'i gyhoeddi.

Hoffwn dynnu eich sylw yn benodol at baragraff 51 ac Argymhelliad 3 sy'n ymwneud â gwaith parhaus y Pwyllgor Busnes mewn perthynas â gweithredu'r broses cydsyniad deddfwriaethol.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: JJ/PO/113/2024

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.cymru

11 Ebrill 2024

Annwyl Cadeirydd,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch adroddiad ar y ddau femorandwm cydsyniad deddfwriaethol cyntaf ar gyfer y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad, a gyhoeddwyd ar 14 Mawrth, a'ch llythyr, a anfonwyd ar 19 Mawrth.

Yn fy ymateb, mae cyfeiriadau at y Bil yn cyfeirio at y fersiwn ddiweddaraf sydd ar gael, a gyhoeddwyd yn dilyn Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin, sydd ar gael yn y ddolen hon:
[Leasehold and Freehold Reform Bill \(parliament.uk\)](https://parliament.uk)

Diolch ichi am ystyried y ddau LCM cyntaf. Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn eich adroddiad:

Argymhelliad 1:

Fy marn i, fel y nodir yn yr LCM, yw bod holl ddarpariaethau'r Bil yn gwneud darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, sef tai. Mae'r LCM wedi cael ei osod i gydnabod y prawf perthnasol yn Rheol Sefydlog 29, ac rwy'n cydnabod ei fod yn wahanol i'r profion cymhwysedd deddfwriaethol pe bai'r darpariaethau hyn yn cael eu ceisio mewn Bil Senedd Cymru (y Senedd). O'r herwydd, nid yw'r LCM yn cynnwys dadansoddiad o allu'r Senedd i basio darpariaeth debyg.

Argymhelliad 2:

Fel y bydd y Pwyllgor yn gwybod, bydd ein safbwynt terfynol ar argymell rhoi cydsyniad yn golygu ystyried amrediad o ffactorau cyfansoddiadol, polisi a gwleidyddol ynghyd â ffactorau eraill. Fel y nodwyd yn y memoranda cydsyniad deddfwriaethol, mae materion eraill y mae angen eu trafod y byddaf yn cadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru yn eu cylch maes o law.

Y Pwyllgor Busnes a fydd yn ystyried *Argymhelliad 3*.

Argymhellion 4 ac 5:

Ar y cychwyn, nid yw Llywodraeth y DU wedi estyn pwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru oni bai nad yw eu dadansoddiadau eu hunain o ddatganoli yn dangos nad yw darpariaethau naill ai wedi'u cadw'n ôl nac wedi'u cyfyngu. Mae bob amser wedi bod

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 22

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yn fwriad i ailedrych ar ddsbarthiad pwerau, fel y nodwyd yn yr LCMau a osodwyd hyd yn hyn. Mae'r holl ddarpariaethau yn y Bil lle mae pwerau'n cael eu hestyn i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig yn agored i gael eu trafod. Ar hyn o bryd nid oes cytundeb i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig.

Rwy'n disgwyl i welliannau gael eu cyflwyno maes o law sy'n mynd i'r afael â chydbwysedd y pwerau a roddwyd yn y Bil, ac a fydd yn tynnu sylw'r Senedd at y newidiadau hyn yn yr LCM sy'n ymdrin â'r gwelliannau hynny.

Argymhelliad 6:

Ar y cychwyn, rhoddwyd y pŵer yn Gov 57 i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â dosbarthiad cychwynol pwerau fel y disgrifir uchod mewn ymateb i Argymhelliad 4. Mae'n destun trafod pellach, fel gyda'r holl bwerau yn y Bil.

Mae'r Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau (yn gweithredu o dan ambarél Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru) yn ymdrin ag amrywiaeth o achosion lesddaliadau mewn perthynas â materion datganoledig. Bydd y Bil yn diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r gwaith o bennu ym mha feysydd y gall y tribiwnlys weithredu, a bydd yn estyn ac yn gwella pwerau'r tribiwnlys mewn meysydd cysylltiedig mewn ffyrdd sydd o fudd i berchnogion tai yng Nghymru. Bydd cylch gwaith diwygiedig y tribiwnlys wrth gwrs yn cael ei ystyried wrth ddatblygu cynigion ar gyfer deddfwriaeth diwygio tribiwnlysoedd.

Argymhelliad 7: Nid yw'r posibilrwydd o ddilyn gorchymyn adran 109 wedi cael ei archwilio gan na fu angen un ar unwaith. Nid oes gennym unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig yn y Senedd ym maes tai a fyddai'n golygu bod angen gorchymyn o'r fath.

Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn eich llythyr dyddiedig 19 Mawrth:

- i) Mae'r asesiad o effaith y Bil ar y Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau datganoledig yn parhau. Bydd y Pwyllgor, ymhlith materion eraill, yn rhan o'r dadansoddiad a fydd yn llywio fy ystyriaethau ynghylch p'un i argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydysyniad i'r Bil ai beidio. Nid wyf yn bwriadu cyhoeddi unrhyw ran o'r deunyddiau hyn.
- ii) Gwnaeth Llywodraeth y DU baratoi dadansoddiad o effaith y Bil. Roedd swyddogion yn gweithio gyda chymheiriaid cyn cyhoeddi'r asesiad effaith, ond, fel sy'n digwydd yn aml, ni cheisiwyd cydsyniad y Gweinidogion.
- iii) Mae'r asesiad effaith sy'n cael ei baratoi a'i gyhoeddi gan Lywodraeth y DU yn cyflawni ei rhwymedigaeth i gyhoeddi asesiad o effaith deddfwriaeth sylfaenol sy'n cael ei chyflwyno i Senedd y DU. Mae'r gwaith y cyfeirir ato o dan oblygiadau ariannol yn yr LCMau yn cael ei amlinellu uchod.
- iv) Mae asesiad Llywodraeth Cymru o'r effaith debygol yn parhau yng ngoleuni gwelliannau i'r Bil.

Gobeithiaf y bydd yr ymateb hwn yn ddefnyddiol wrth ichi ystyried y Bil ymhellach.

Yn gywir



Julie James AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio
Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

19 Mawrth 2024

Annwyl Julie

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad

Gosodwyd ein hadroddiad 14 Mawrth yn cwmpasu Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad (y Memorandwm) a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil (Memorandwm Rhif 2).

Yn y Memorandwm, ar oblygiadau ariannol rydych yn nodi:

79. Mae'r Bil hwn yn gwneud darpariaeth sylweddol mewn perthynas â'r Tribiwnlys Priso Lesddaliadau datganoledig, a fydd yn effeithio ar ei bwerau a'i lwyth achosion. Mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu'r effaith bosibl ar y tribiwnlys ac i ddeall beth fydd goblygiadau ariannol yr effaith honno.

80. Mae Llywodraeth y DU wedi paratoi Asesiad Effaith ar gyfer y Bil sy'n cwmpasu goblygiadau ehangach y Bil yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys yr effeithiau ar Gymru. Rwyf ar ddeall y caiff hwn ei gyhoeddi cyn hir.

Ym Memorandwm Rhif 2, rydych yn ailadrodd paragraff 79 o'r Memorandwm ym mharagraff 55 ac, ym mharagraff 56, rydych yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a nodir ym mharagraff 80 o'r Memorandwm drwy ddarparu linc i asesiad effaith Llywodraeth y DU, sy'n ymdrin â'r effeithiau ar Gymru.

Gwnaethoch osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil (Memorandwm Rhif 3) ar 4 Mawrth 2024. Ym Memorandwm Rhif 3, ym mharagraff 56, rydych yn ailadrodd bod "gwaith yn mynd rhagddo i asesu'r effaith bosibl ar y tribiwnlys ac i ddeall beth fydd goblygiadau ariannol yr effaith honno."



A fyddech cystal â rhoi gwybod inni:

- i. pryd yr ydych yn bwriadu cyhoeddi eich asesiad o effaith bosibl y Bil ar y Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau datganoledig, gan gynnwys y goblygiadau ariannol;
- ii. pwy a asesodd effeithiau'r Bil ar Gymru er mwyn darparu gwybodaeth i'w chynnwys yn asesiad effaith Llywodraeth y DU ac (os yw'n berthnasol) a ymgynghorwyd â chi;
- iii. sut mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru yn wahanol i'r gwaith a wneir ar wybodaeth i'w chynnwys yn asesiad effaith Llywodraeth y DU;
- iv. pam na chynhaliwyd asesiad Llywodraeth Cymru mewn pryd i gael ei gynnwys yn asesiad effaith Llywodraeth y DU, fel nad yw ar gael ar hyn o bryd i graffu arno yn y ddeddfwrfa lle bydd y Bil yn cael ei ystyried ac yn destun gwelliant.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 17 Ebrill 2024.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd



Eitem 6.4



Department for Levelling Up,
Housing & Communities

Rt Hon Michael Gove MP

Secretary of State for Levelling up, Housing & Communities
Minister for Intergovernmental Relations
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Baroness Drake
Chair, Constitution Committee
House of Lords

21 March 2024

Dear Baroness Drake,

Thank you for your letter of 5 March 2024, following the 29 February meeting of the Inter-Parliamentary Forum, which Minister Buchan attended on my behalf.

I welcome the continued interest the Forum has shown with regards to the Common Frameworks programme. This Forum provides the opportunity to strengthen accountability and transparency for outcomes in policy areas in which the devolved administrations lead, as well as discussion on shared challenges. The UK Government deeply values transparency, accountability, and effective scrutiny by Parliament and the broader public on Government's participation in intergovernmental structures.

I strongly welcome the restoration of the Northern Ireland Executive and Northern Ireland Assembly. With their new powers and a funding package worth over £3 billion, we have the opportunity and responsibility to deliver a more prosperous future for all people in Northern Ireland. I share your view that the restoration of devolved institutions in Northern Ireland will make it possible to make substantial progress in implementing Common Frameworks.

Roedd fy swyddogion yn cysylltu'n rheolaidd â swyddogion Llywodraeth y DU cyn cyflwyno'r Bil Rhentwyr (Diwygio), i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y sefyllfa mewn perthynas â'r Bil. Roedd fy swyddogion hefyd yn cysylltu'n rheolaidd â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU, yn enwedig lle y gallai materion grwydro i feysydd datganoledig.

Ar 26 Ebrill, cafodd swyddogion Llywodraeth Cymru wybod bod y Bil yn debygol o gael ei osod ddechrau mis Mai ac y byddai'r Bil yn gymwys i Loegr yn unig. Hysbysodd Llywodraeth y DU swyddogion polisi hefyd eu bod yn llunio cynigion ynghylch gwaharddiadau diwahân ar arferion 'Dim hawl wyr DSS' a 'Dim plant' ('y gwaharddiad diwahân'). Ni fyddai'r darpariaethau hyn yn barod ar gyfer cyflwyno'r Bil, ond roeddent yn debygol o gael eu cyflwyno yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.

Ar yr adeg hon, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru yn anffurfiol ynghylch y posibilrwydd o estyn darpariaethau'r gwaharddiad diwahân i Gymru. Y pryd hynny rhagwelwyd y byddai Cyfnod y Pwyllgor ar ddechrau mis Mehefin, felly roedd yr amserlen yn dynn iawn.

Yn dilyn eu hystyriaethau eu hunain o sut y byddai hyn yn gweithio, rhoddodd fy swyddogion wybod imi am y gwahoddiad ar 17 Mai, a dywedais fod hwn yn rhywbeth yr hoffwn i swyddogion ei archwilio. Yna, cynhaliodd fy swyddogion gyfarfodydd â swyddogion Llywodraeth y DU dros yr wythnosau nesaf i weithio ar y gofynion polisi ar gyfer Cymru yn fanylach.

Yn y cyfamser, cafodd y Bil fel y'i cyflwynwyd ei ystyried gan swyddogion ac, ar 24 Mai, cefais wybod nad oedd angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil. Yn dilyn hynny,

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 56
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ysgrifennais at Weinidog Llywodraeth y DU dros Dai i gadarnhau fy mod o'r farn nad oedd angen cydsyniad deddfwriaethol.

Ar 12 Mehefin, rhoddais ganiatâd ffurfiol i swyddogion weithio gyda Llywodraeth y DU ar y potensial i estyn darpariaethau'r gwaharddiad diwahân i Gymru.

Llithrodd Cyfnod Pwyllgor y Bil sawl mis i'r dyddiad olaf ar 18 Tachwedd. Gweithiodd fy swyddogion yn agos gyda swyddogion Llywodraeth y DU wrth ddatblygu cyfarwyddiadau polisi cyn yr amser hwn. Cafodd gwelliannau drafft, yn eu tro, eu rhannu â Llywodraeth Cymru i'w hystyried. Cwblhawyd y gwelliannau a chytunwyd arnynt gan swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU ar 18 Hydref. Hefyd gweithiodd fy swyddogion gyda Llywodraeth y DU ar ddogfennau ategol, fel Nodiadau Esboniadol a'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig yn ystod y cyfnod hwn.

Ar 25 Hydref, ysgrifennais at y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gan anfon copi at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, i'w gwneud yn ymwybodol bod fy swyddogion yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i wneud gwelliannau i'r Bil Rhentwyr (Diwygio) i gyflwyno darpariaethau'r gwaharddiad diwahân yng Nghymru.

Ar 14 Tachwedd, cyhoeddwyd y gwelliannau mewn perthynas â Chymru, ac ysgrifennodd y Gweinidog Ffyniant Bro at y Gweinidog Newid Hinsawdd i ofyn yn ffurfiol am gydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd. Ymatebais ar 31 Ionawr i gadarnhau bod cydsyniad deddfwriaethol wedi cael ei geisio, a bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi cael ei osod ar 30 Ionawr.

Mae fy swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â Llywodraeth y DU drwy gydol y broses ac mae'r ymgysylltu yn parhau wrth i'r Bil fynd ar ei daith drwy Senedd y DU.

Yn gywir



Julie James AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio
Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

19 Mawrth 2024

Annwyl Julie

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio)

Diolch am roi tystiolaeth i'm Pwyllgor ar 11 Mawrth 2024 mewn perthynas â Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio).

Yn ystod y sesiwn, nodwyd bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (Cofnod y Trafodion, paragraffau 70-73), ac fe wnaethoch ymrwymo (Cofnod y Trafodion, paragraff 87) i ddarparu amserlen ymgysylltu i'r Pwyllgor ar faterion yn ymwneud â'r Bil.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai'r amserlen hon ddechrau gydag unrhyw ymgysylltiad â Llywodraeth y DU *cyn* cyflwyno'r Bil a gorffen gyda'r cyswllt diweddaraf. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe gallai'r amserlen honno gynnwys ymgysylltiad arferol a phenodol rhwng Gweinidogion, a hefyd rhwng swyddogion, pan gafodd materion perthnasol eu codi neu eu trafod. Byddai gwybodaeth am ohebiaeth ffurfiol gan Weinidogion hefyd yn ddefnyddiol.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn diwedd y dydd ar 10 Ebrill 2024.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

Eich cyf/Our ref:

Y Cadeirydd – Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

11 Ebrill 2024

Annwyl Cadeirydd,

Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

Diolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ystyried y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a'r adroddiad cyfatebol ar 6 Mawrth 2024.

Gweler fy ymateb isod i'r set o argymhellion a chasgliadau yn yr adroddiad. Rwyf yn falch fy mod i wedi gallu derbyn llawer o'r argymhellion.

Nid wyf wedi gallu derbyn y grŵp o argymhellion tebyg i hepgor sawl rhan o'r Bil sy'n cynnwys pwerau gwneud rheoliadau. Mae'r ymateb i bob argymhelliad o'r fath yn nodi'r effaith y byddai dileu'r adran berthnasol yn ei chael, ar ei ben ei hun. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod rhai o'r pwerau hyn yn gysylltiedig, gan eu bod yn ategu ei gilydd drwy weithredu ar wahanol bamedrau o fewn y system dreth leol. Byddai sefyllfa ganolraddol bosibl, a oedd yn cadw rhai o'r pwerau hyn ac yn cael gwared ar rai eraill, yn golygu nad fyddem bob amser yn gallu defnyddio'r adnodd mwyaf priodol mewn ymateb i flaenoriaethau yn y dyfodol. Er enghraifft, byddai cymorth ardrethi annomestig newydd yn cael ei ddarparu fel rhyddhad, eithriad neu luosydd gwahaniaethol, yn dibynnu ar y dull gorau o gyflawni'r nod polisi penodol. Mae'n bwysig bod yr holl offer hyn yn cael eu defnyddio i'r un graddau gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau, er mwyn cynnal y bwriad polisi y tu ôl i'r darpariaethau a sicrhau bod y system gyfan yn gweithredu yn y ffordd orau.

Rwyf wedi atodi er gwybodaeth gopi'au o'r llythyrau rwyf wedi eu hanfon at gadeiryddion y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Cyllid, ac rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at gadeiryddion y ddau Bwyllgor hynny.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Senedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

Ymatebion i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac Argymhellion ynglŷn â'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

Argymhelliad 1: Dylai'r Gweinidog ymateb i'r casgliadau a'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn cynnal y ddafl ar egwyddorion cyffredinol Cyfnod 1.

DERBYN.

Argymhelliad 2: Dylai'r Gweinidog gadarnhau a yw wedi cael trafodaethau gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Chabinet Llywodraeth Cymru ynghylch y flaenoriaeth y dylid ei rhoi i atgyfnerthu'r gyfraith ar drethiant lleol.

DERBYN. Trafodais ddewisiadau deddfwriaethol gyda'r Cwnsler Cyffredinol cyn drafftio'r Bil ac, fel yr eglurais i'r Pwyllgor, gwnaethpwyd y penderfyniad i beidio ag atgyfnerthu'r gyfraith ar drethiant lleol ar hyn o bryd. Mae ymrwymiad parhaus y Pwyllgor i hygyrchedd cyfraith Cymru a chefnogaeth ar gyfer cyfuno yn ddefnyddiol, a bydd y canfyddiadau yn adroddiad y Pwyllgor yn cael eu hystyried wrth i gynigion ar gyfer prosiectau cyfuno yn y dyfodol gael eu datblygu. Gan hynny, rwyf wedi rhannu barn y Pwyllgor ar y mater hwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol.

Argymhelliad 3: Dylai'r Gweinidog roi manylion llawn pam, ar bob un o'r achlysuron a grybwyllir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil ac yn ei llythyr at y Pwyllgor ar 18 Ionawr 2024 pan ddefnyddiwyd Biliau'r DU, na fyddai'r Senedd wedi gallu pasio ei deddfwriaeth ei hun i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol i'r systemau ardrethi annomestig a'r dreth gyngor yng Nghymru.

DERBYN. Mae'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd mewn perthynas â phob achlysur pan gyflwynwyd Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi'r ystyriaethau a'r rhesymeg allweddol dros argymell cydsyniad. Er mwyn helpu'r Pwyllgor i gael gafaal ar yr wybodaeth hon, darperir dolenni yn **Atodiad A** i'r llythyr hwn.

Argymhelliad 4: Dylai'r Gweinidog ddarparu i'r Senedd restr glir, lawn a manwl o bob un o'r pwerau dirprwyedig yn y Bil, drwy gyfeirio at leoliad penodol, math, gweithdrefn craffu, ac a yw'n bŵer wedi ei ailddatgan (wedi ei ddiwygio neu heb ei ddiwygio).

DERBYN. Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani ar gael yn Atodiad B y llythyr hwn. Ystyrir mai'r "pwerau wedi eu hailddatgan heb eu diwygio" yw'r rhai sy'n cael yr un effaith â'r pwerau presennol, er y gallai rhai mân ddiwygiadau testunol fod wedi cael eu gwneud i sicrhau eglurder. Ystyrir mai'r "pwerau wedi eu hailddatgan gyda diwygiadau" yw'r rhai sydd, yn fras, yn cael yr un effaith â'r pwerau presennol ond lle mae diwygiadau mwy sylweddol wedi eu gwneud.

Argymhelliad 5: Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i hepgor adran 5.

GWRTHOD. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (“Deddf 1988”) eisoes yn cynnwys amrywiaeth o bwerau unigol i Weinidogion Cymru eu darparu ar gyfer rhyddhad drwy reoliadau. Nid yw’r pŵer hwn yn fwy arwyddocaol o ran ei effaith bosibl ar atebolrwydd ardrethi annomestig na mecanweithiau deddfwriaethol a dewisol eraill sydd eisoes yn bodoli, ond mae’n darparu ar gyfer cysondeb ar draws tirwedd rhyddhad.

Gallai mabwysiadu’r argymhelliad hwn roi trethdalwyr dan anfantais drwy oedi neu hyd yn oed atal darparu cymorth newydd lle mae angen gweithredu’n gyflym iawn. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys yr angen i ddibynnu ar fecanweithiau dewisol i ddarparu dros £1 biliwn o ryddhad i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch ers 2020-21 a’r gyllideb sydd ar gael i lywio dull Llywodraeth Cymru o ddarparu rhyddhad trosiannol ar ôl i Ddatganiad yr Hydref 2022 Llywodraeth y Deyrnas Unedig effeithio ar ailbrisiad 2023.

Argymhelliad 6: Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i’r Bil i hepgor adran 9.

GWRTHOD. Gallai mabwysiadu’r argymhelliad hwn roi trethdalwyr dan anfantais drwy ohirio darparu eithriad newydd. Mae sawl ffordd y gellir lleihau atebolrwydd trethdalwr i sero. Mae’r rhain yn cynnwys defnyddio deddfwriaeth neu bwerau disgresiwn presennol awdurdodau lleol i ddarparu rhyddhad llawn. Mae eithriadau yn ddewis arall yn lle darparu rhyddhad llawn, a gymhwysir pan ystyrir y dylai’r swm taladwy o ardrethi annomestig ar gyfer math penodol o eiddo fod yn sero ar sail barhaol. Mewn amgylchiadau o’r fath, byddai cost a dim budd yn gysylltiedig â phrisio eiddo o’r math hwnnw. Gan hynny, nid yw’r pŵer hwn yn fwy arwyddocaol o ran ei effaith bosibl ar atebolrwydd na mecanweithiau deddfwriaethol neu ddewisol eraill sydd eisoes yn bodoli, ond mae’n darparu mwy o gysondeb ar draws y gwahanol elfennau hyn o’r system.

Argymhelliad 7: Dylai’r Gweinidog roi rhesymau llawn a manwl pam na wneir darpariaeth ar wyneb y Bil ar gyfer lluosydd ar gyfer busnesau bach.

DERBYN. Nid oes bwriad polisi ar hyn o bryd i greu lluosydd busnesau bach ar gyfer Cymru. Mae creu lluosydd ar gyfer busnesau bach yn un enghraifft yn unig o ddull y byddai modd ei fabwysiadu gan ddefnyddio’r pwerau yn adran 10 y Bil. Defnyddiwyd yr enghraifft hon oherwydd ei bod yn dangos sut mae’r fframwaith deddfwriaethol presennol yn cyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael i Weinidogion Cymru, gan gynnwys mewn perthynas â pholisïau sy’n cael eu hargymell gan Aelodau’r Senedd.

Mae ffyrdd eraill y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno targedu’r defnydd o luosyddion gwahaniaethol, mewn perthynas â’n blaenoriaethau ac anghenion Cymru. Bwriad Adran 10 yw galluogi dadansoddiad o amrywiaeth ehangach o ddewisiadau polisi wrth ystyried a ddylid cyflwyno lluosydd gwahaniaethol ar gyfer Cymru.

Argymhelliad 8: Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i’r Bil i hepgor adrannau 10 ac 11.

GWARTHOD. Mae Deddf 1988 eisoes yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru bennu'r lluosydd sengl presennol ar unrhyw lefel. Gan hynny, nid yw'r pŵer hwn yn fwy arwyddocaol o ran ei effaith bosibl ar atebolrwydd na'r hyn sydd eisoes yn bodoli. Mae lluosyddion gwahaniaethol yn bodoli mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig ac mae'r rhesymeg dros y darpariaethau hyn wedi ei nodi. Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn cyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael i Weinidogion Cymru, gan gynnwys mewn perthynas â pholisïau sy'n cael eu hargymell gan Aelodau'r Senedd (er enghraifft, cyflwyno a rhewi lluosydd is ar gyfer busnesau bach).

Argymhelliad 9: Dylai'r Gweinidog ddarparu enghreifftiau penodol o ymddygiad yn erbyn osgoi trethi a fyddai wedi cael sylw drwy ddefnyddio'r pŵer arfaethedig yn adran 13 yn y blynyddoedd diwethaf pe bai wedi bod ar gael i Weinidogion Cymru yn gynharach.

DERBYN. Mae'n werth nodi'n gyntaf, pe bai pŵer yn erbyn osgoi trethi wedi cael ei gyflwyno rai blynyddoedd yn ôl, na fyddai o reidrwydd wedi cael ei ddrafftio yn y ffordd y caiff ei gyflwyno yn awr, ac mae'r dirwedd y byddai wedi cael ei ddefnyddio ynddi wedi esblygu hefyd (o ganlyniad i gyfraith achosion, er enghraifft). Yn yr un modd ag unrhyw bŵer, byddai'r defnydd ohono hefyd yn destun ymgynghoriad. Gan hynny, gallai pŵer yn erbyn osgoi trethi fod wedi cael ei ddefnyddio'n wahanol mewn blynyddoedd blaenorol i'r ffordd y gellid defnyddio pŵer newydd yn y dyfodol. Yn ail, mae'r ymateb i'r argymhelliad hwn o reidrwydd wedi ei gyfyngu i sut gellid bod wedi defnyddio pŵer. Nid yw'n fater o sut gellid bod wedi defnyddio cyfleoedd deddfwriaethol sylfaenol hefyd, pe baent wedi bod ar gael cyn hyn.

Gan roi'r materion hynny o'r neilltu, mae'n bosibl y byddai Gweinidogion Cymru wedi ceisio defnyddio pŵer yn erbyn osgoi trethi i fynd i'r afael â threfniadau osgoi sy'n dibynnu ar y canlynol:

- cynlluniau lliniaru ardrethi trydydd parti sy'n cael eu hysbysebu'n agored;
- trefniadau meddiannaeth nad ydynt yn cael eu gwneud ar sail fasnachol;
- cwmnïau ffenics yn manteisio ar ryddhad i eiddo heb ei feddiannu;
- "elusennau" anghyfreithlon yn manteisio ar ryddhad elusennol ar gyfer eiddo heb ei feddiannu.

Bydd y Pwyllgor yn gyfarwydd â phryderon ynghylch manteisio ar ryddhad elusennol ar gyfer eiddo heb ei feddiannu, gan fod y mater hwn bellach yn cael sylw yn adran 6 y Bil. Mae'r mater hwn wedi bod yn hysbys ers i ni ymgynghori ar amrywiaeth o fesurau i fynd i'r afael ag osgoi yn 2018. Pe bai pŵer yn erbyn osgoi trethi eisoes wedi bod ar gael bryd hynny, gallai Gweinidogion Cymru fod wedi ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r mater yn brydlon. Yn absenoldeb pŵer o'r fath, y Bil hwn yw'r cyfle cyntaf sydd ar gael i gymryd camau i fynd i'r afael â'r camfanteisio. Ystyrir bod diwygiadau i Ddeddf 1988 yn ddigonol yn yr achos hwn, oherwydd gellir mynd i'r afael â'r osgoi drwy gryfhau'r gofynion tystiolaeth y mae angen eu bodloni cyn rhoi'r rhyddhad. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i addasu deddfwriaeth bresennol lle'r ydym yn nodi y gellir gwneud gwelliannau, a nodir enghreifftiau eraill o'r dull hwn mewn ymateb i argymhelliad 10.

Fodd bynnag, rydym o'r farn na ellir mynd i'r afael â llawer o drefniadau osgoi yn ddigonol dim ond drwy newid y darpariaethau deddfwriaethol presennol sy'n cael eu hecsbloetio.

Mae argaeledd trefn gwrth-osgoi benodol sy'n darparu ar gyfer addasu atebolrwydd mewn achosion penodol lle mae trefniadau osgoi artiffisial yn ymateb i'r broblem honno. Bydd y drefn hon yn cael ei darparu gan y darpariaethau gwrth-osgoi newydd yn Neddf 1988 a'r offeryn statudol a fydd yn diffinio'r trefniadau artiffisial penodol. Mae'r dull deddfwriaethol hwn yn sicrhau y gellir delio â thechnegau osgoi trethi, sy'n esblygu'n barhaus, yn brydlon, er mwyn lleihau'r risg refeniw i gyllid y wlad.

Argymhelliad 10: Dylai'r Gweinidog egluro sut mae Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y Deyrnas Unedig wedi mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-osgoi o'r fath yn y gorffennol, o ystyried natur hirsefydlog ardrethu annomestig.

DERBYN. Fel y disgrifiwyd mewn ymateb i argymhelliad 9, mae absenoldeb rhai o'r pwerau yn y Bil wedi cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag osgoi mewn modd amserol. Mae mynd i'r afael ag osgoi ardrethi annomestig yn faes lle mae Llywodraeth Cymru ar y blaen i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ar ôl gwneud cynnydd graddol o ran gweithredu amrywiaeth o fesurau a gyhoeddwyd yn 2018. Mae rhai mesurau wedi bod yn bosibl eu cyflawni gan ddefnyddio rheoliadau (e.e. cynyddu'r cyfnod rhwng achosion o gymhwysedd ar gyfer rhyddhad ar gyfer eiddo heb ei feddiannu), ond mae deddfwriaeth sylfaenol wedi bod yn angenrheidiol ar gyfer y rhan fwyaf o bethau (e.e. pwerau i awdurdodau lleol fynd i mewn ac arolygu eiddo neu ofyn am wybodaeth gan drydydd partiön sy'n cynnal busnes mewn perthynas ag eiddo). Lle mae deddfwriaeth sylfaenol wedi bod yn ofynnol, mae'r cyfleoedd ar gyfer darpariaethau mewn cyfrwng deddfwriaethol addas wedi bod yn gyfyngedig. Am y rheswm hwn, mae adrannau 6 a 13 o'r Bil hwn yn darparu ar gyfer dau o'r mesurau a gyhoeddwyd gyntaf yn 2018.

Argymhelliad 11: Os nad oes tystiolaeth benodol yn dangos bod angen y pŵer, dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i hepgor adran 13.

GWRTHOD. Byddai mabwysiadu'r argymhelliad hwn yn arwain at oedi wrth fynd i'r afael â threfniadau gwrth-osgoi a nodwyd, gan arwain at osgoi atebolrwydd am gyfnod hir. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 13 y Bil wedi cael ei ddylunio'n ofalus i fod mor gyfyngedig â phosibl, gan barhau i alluogi'r bwriad polisi hirsefydlog ac annadleuol y tu ôl i'r darpariaethau i gael ei gyflawni. Bydd cynigion i ddiffinio trefniadau osgoi artiffisial newydd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyn cyflwyno rheoliadau.

Argymhelliad 12: Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i hepgor adran 18.

GWRTHOD. Byddai mabwysiadu'r argymhelliad hwn yn golygu y byddai Gweinidogion Cymru yn parhau i gael eu cyfyngu o ran newid elfennau o'r disgowntiau y darperir ar eu cyfer ar hyn o bryd yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Byddai'n atal Gweinidogion Cymru rhag cyflwyno disgowntiau newydd neu sicrhau y gellir targedu gostyngiadau i helpu i gefnogi'r aelwydydd mwyaf agored i niwed ac incwm isel. Mae'r trefniadau presennol yn gymysgedd o ddarpariaethau nad ydynt mor glir ag y gallent fod, ac nad ydynt yn gweithio'n arbennig o dda gyda'i gilydd.

Gallai dileu'r adran hon roi'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor, ymarferwyr awdurdodau lleol a gwasanaethau cynghori a fyddai'n elwa ar nodau'r polisi i symleiddio'r trefniadau mewn perthynas â Chymru, gan ddarparu eglurder a dileu'r amwysedd sy'n bodoli yn rhai o'r darpariaethau presennol yn Neddf 1992. Gallai dileu'r adran hon hefyd roi rhai talwyr treth y cyngor dan anfantais o ran elwa ar nodau polisi Llywodraeth Cymru o gyflawni nodau economaidd-gymdeithasol ehangach, fel mynd i'r afael â thlodi.

Argymhelliad 13: Dylai'r Gweinidog egluro pa weithdrefn craffu fydd yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adran 13(1) o Ddeddf 1992 (fel y'i diwygiwyd).

DERBYN. Bydd rheoliadau a wneir o dan adran 13(1) o Ddeddf 1992 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol fel y'i darperir yn barod yn Neddf 1992. Bydd Tabl 5.1 yn y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r sefyllfa hon.

Ymatebion i gasgliadau'r Pwyllgor

Fe nodwch isod fy mod yn darparu un ymateb i ymdrin â chasgliadau 1-10 ac 12.

Casgliad 1: Ni ddylai capasiti a phwysau Llywodraeth Cymru gael eu drysu na'u cyfuno â chapasiti a dyletswydd y Senedd i gyflawni ei swyddogaeth ddeddfwriaethol.

Casgliad 2: Rydym yn anghytuno â datganiad y Gweinidog y bydd y "trefniadau a gynigir yn y Bil hwn yn gwella rôl y Senedd yn sylweddol".

Casgliad 3: Nid ydym yn glir sut y bydd y Bil, ym marn y Gweinidog, yn "rhoi mwy o bŵer i'r Senedd dros benderfyniadau a wneir yma yng Nghymru mewn perthynas ag ardrethi annomestig a'r dreth gyngor".

Casgliad 4: Rydym o'r farn bod sylwadau'r Gweinidog bod y Bil yn fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu at y dyfodol yn groes i'w barn ei fod hefyd yn gyson ag egwyddorion hirsefydlog mewn perthynas â rôl y ddeddfwriaeth.

Casgliad 5: Er ein bod ni'n cydnabod y gallai fod adegau mewn unrhyw flwyddyn benodol lle gallai amgylchiadau brys ac annisgwyl alw am newidiadau deddfwriaethol, nid yw hyn ynddo'i hun yn rheswm digonol i gyfiawnhau cymryd pŵer gweithredol sylweddol pan fydd gan y Senedd weithdrefnau ar waith i ganiatáu craffu cyflym ar ddeddfwriaeth sylfaenol.

Casgliad 6: Nid ydym yn croesawu sylwadau'r Gweinidog y bydd y Bil yn "gadael i lywodraethau'r dyfodol feddwl yn greadigol am wahanol bethau", yn enwedig yng ngoleuni'r cyfyngiadau sydd ar y Senedd ei hun i ddylanwadu ar y "meddwl creadigol" hwn.

Casgliad 7: Nid ydym o'r farn bod y Bil yn ffordd briodol i lywodraeth ddeddfu. Ni ddylai llywodraeth gynnig deddfwriaeth sylfaenol sy'n creu pwerau gwneud rheoliadau helaeth er mwyn galluogi llywodraethau'r dyfodol i 'feddwl yn greadigol'. Mae hyn yn hwyluso osgoi craffu manwl gan Aelodau Senedd a etholwyd yn ddemocrataidd.

Casgliad 8: Drwy'r Bil, mae'r Gweinidog yn gofyn i'r Senedd hon roi pwerau dirprwyedig eang i lywodraeth anetholedig yn y dyfodol am resymau anhysbys ac i wneud amrywiaeth eang o bethau nad ydynt o reidrwydd yn cael eu deall heddiw. Mae rhoi gormod o bwerau deddfu eilaidd yn gwadu rôl gyfansoddiadol briodol y Senedd.

Casgliad 9: Rydym wedi gwneud sylwadau dro ar ôl tro ar y cyfiawnhad 'diogelu at y dyfodol' a gyflwynir yn aml gan Weinidogion Cymru. Mae diogelu deddfwriaeth sylfaenol yn ormodol at y dyfodol yn tynnu pwerau oddi ar Seneddau'r dyfodol ac nid yw'n arfer derbyniol.

Casgliad 10: Credwn fod y Bil yn enghraifft o Lywodraeth Cymru yn gwneud dewisiadau deddfwriaethol amhriodol, ac mae hyn yn peri pryder arbennig yng nghyd-destun diwygio'r Senedd.

Casgliad 12: Yn unol ag egwyddorion seneddol hirsefydlog, credwn y dylai newidiadau sylweddol i drethiant lleol gael eu gwneud gan ddeddfwriaeth sylfaenol ar ôl datblygu polisi penodol.

NODWYD. Fe wnes i gydnabod yn ystod fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, heb ystyried capasiti, ei fod hefyd yn fater o'r hyn sy'n rhesymol a chymesur o ran deddfu yn y maes hwn. Rwyf wedi nodi fy rhesymau dros y dull gweithredu a fabwysiadwyd yn y Bil hwn, fel mae adroddiad y Pwyllgor wedi cydnabod. Am y rhesymau hyn y mae'r Llywodraeth yn ceisio cael y pwerau hyn i wneud rheoliadau, yn hytrach na chyflwyno deddfwriaeth sylfaenol ar wahân bob tro y bydd angen newid. Ar sail nifer y newidiadau mewn trethi lleol dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw dull gweithredu o'r fath yn cael ei ystyried yn un y gellir ei gyflawni. Rwyf yn sylweddoli bod gan y Pwyllgor farn wahanol am hyn.

Rwyf hefyd wedi bod yn glir yn fy nhystiolaeth fy mod i o'r farn bod y dull gweithredu arfaethedig a nodir yn y Bil hwn yn welliant sylweddol o'i gymharu â'r system rydym wedi dibynnu arni hyd yma o ran ceisio cydsyniadau i Gymru drwy Filiau Senedd y Deyrnas Unedig.

Yn olaf, nodaf sylw'r Pwyllgor mewn perthynas â gallu cynyddol y Senedd i graffu yn y dyfodol pe bai Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn cael ei basio.

Casgliad 11: Mae'r Gweinidog yn gofyn i'r Senedd ddirprwyo pwerau sylweddol i'w harfer gan y weithrediaeth a dylai'r Senedd wybod yr union rif, lleoliad a math sydd yn y Bil.

NODWYD. Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani yn argymhelliad 4 yn **Atodiad B** i'r llythyr hwn.

Casgliad 13: Mae Adran 9 yn enghraifft arall yn y Bil lle mae pwerau eang i wneud is-ddeddfwriaeth yn cael eu cymryd heb unrhyw dystiolaeth na nod polisi mewn golwg. Nid ydym o'r farn bod hyn yn briodol nac yn dderbyniol.

NODWYD. Mae'r cyd-destun a'r rhesymeg y tu ôl i adran 9 y Bil wedi cael eu hegluro. Fel y nodir yn yr wybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol, ac a adlewyrchir yn adroddiad y Pwyllgor, nid yw'r pŵer yn adran 9 yn fwy arwyddocaol o ran ei effaith bosibl ar atebolrwydd ardrethi annomestig na mecanweithiau deddfwriaethol a dewisol eraill sydd eisoes yn bodoli.

Casgliad 14: O ystyried yr enghraifft mae'r Gweinidog wedi ei dyfynnu o ran lluosydd ar gyfer busnesau bach, nid ydym yn glir pam nad yw'r Bil yn cael ei ddefnyddio i greu lluosydd o'r fath.

NODWYD. Mae'r mater hwn yn cael ei egluro yn fy ymateb i argymhelliad 7.

Teitl y ddeddfwriaeth	Dolen at fanylion ynghylch cydsyniad deddfwriaethol	Y rheswm/rhesymau dros fabwysiadu'r dull hwn a amlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Deddf Lleoliaeth 2011	https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=1334&Opt=0&AIID=2878	Manteision defnyddio'r Bil hwn Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol delio â'r darpariaethau hyn ym Mil y Deyrnas Unedig hwn gan ei fod yn cynrychioli'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd.
Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012	https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryChronology.aspx?Ild=3938&Opt=2 https://senedd.wales/laid%20documents/lcm-ld11580/lcm-ld11580-w.pdf	Manteision defnyddio'r Bil hwn Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol delio â'r darpariaethau hyn ym Mil y Deyrnas Unedig hwn gan ei fod yn cynrychioli'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys yng Nghymru cyn gynted â phosibl. Bydd y darpariaethau hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno deddfwriaeth briodol yn unol â blaenoriaethau a phryderon Cymru, cyn diddymu Budd-dal y Dreth Gyngor ym mis Mawrth 2013.
Deddf Twf a Seilwaith 2013	https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=5396&Opt=0&AIID=9232 https://senedd.wales/Laid%20Documents/LCM-LD9146%20-%20Legislative%20Consent%20Memorandum%20-%20%20Growth%20and%20Infrastructure%20Bill,%20Amendments%20to%20the%20Local%20Governme-18122012-241737/lcm-ld9146-e-Cymraeg.pdf	Manteision defnyddio'r Bil hwn Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol delio â'r darpariaethau hyn ym Mil y Deyrnas Unedig hwn gan ei fod yn cynrychioli'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru cyn gynted ag y bo modd. Gallai aros i ddarpariaethau tebyg gael eu cynnwys mewn Bil Cynulliad arwain at oedi a fyddai'n golygu bod Cymru dan anfantais o'i chymharu â'r sefyllfa yn Lloegr. Bydd y darpariaethau yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno is-ddeddfwriaeth briodol yn unol â blaenoriaethau Cymru.
Deddf Menter 2016	https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryChronology.aspx?Ild=13706&Opt=2&AIID=26	Manteision defnyddio'r Bil hwn Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod hi'n briodol delio a'r darpariaethau hyn ym Mil y Deyrnas Unedig ar sail amseru a chydlyniaeth. Mae natur

Teitl y ddeddfwriaeth	Dolen at fanylion ynghylch cydsyniad deddfwriaethol	Y rheswm/rhesymau dros fabwysiadu'r dull hwn a amlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
	974 https://senedd.wales/laid%20documents/lcm-ld10372/lcm-ld10372-w.pdf	<p>rhyng-gysylltiedig y systemau ardrethi annomestig gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr a gweithrediad trawsffiniol Asiantaeth y Swyddfa Brisio fel asiantaeth Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn golygu ei bod yn effeithiol ac yn briodol i'r ddarpariaeth ar gyfer gweinyddiaethau Cymru a Lloegr gael ei datblygu ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol.</p>
Deddf Seilwaith Telathrebu (Rhyddhad Rhag Ardrethi Annomestig) 2018	https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=19909	<p>Manteision defnyddio'r Bil hwn Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod hi'n briodol delio a'r darpariaethau hyn ym Mil y Deyrnas Unedig ar sail amseru a chydlyniaeth. Mae hyn yn cynnwys yr angen i ddarparu cydraddoldeb â Lloegr i sicrhau nad effeithir yn andwyol ar fuddsoddiad mewn seilwaith ffeibr yng Nghymru. Mae natur gydgyssylltiedig y systemau gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr hefyd yn cefnogi bwrw ymlaen â darpariaeth ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol.</p>
Bil Ardrethu Annomestig (Meithrinfeydd Planhigion) 2018	https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=22279&Opt=0 https://senedd.wales/laid%20documents/lcm-ld11580/lcm-ld11580-w.pdf	<p>Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Mae'r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi cael ei ddiystyru oherwydd nad oes cyfle deddfwriaethol cadarn ar hyn o bryd o fewn yr amserlen sy'n ofynnol. Yn ogystal, byddai defnyddio Bil Llywodraeth Cymru yn arwain at ddulliau prisio gwahanol ar waith yng Nghymru a Lloegr am gyfnod, h.y. nes i Fil Llywodraeth Cymru ddod yn gyfraith. Ni fyddai hyn yn ddymunol ac ni fyddai modd ei gyfiawnhau.</p>
Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) 2019 (Daeth y Bil i ben pan ohiriwyd Senedd y Deyrnas Unedig, ond cafodd ei ailgyflwyno)	https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=25705	<p>Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Mae angen llawer o waith paratoi ar gyfer rhestrau ardrethu newydd sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2021 ac i sicrhau bod trethdalwyr yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig. Mae'r cadarnhad o'r dyddiad prisio yn y ddeddfwriaeth yn darparu'r sail statudol ar gyfer y gwaith hwn. Mae'r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi cael ei ddiystyru oherwydd nad oes cyfle deddfwriaethol addas o fewn yr amserlen sy'n ofynnol i alluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gwblhau'r gwaith prisio angenrheidiol. Yn ogystal, byddai defnyddio Bil diweddarach gan Lywodraeth Cymru yn arwain at lai o sicrwydd i fusnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru yn y cyfamser. Bydd y Bil yn sicrhau bod</p>

Teitl y ddeddfwriaeth	Dolen at fanylion ynghylch cydsyniad deddfwriaethol	Y rheswm/rhesymau dros fabwysiadu'r dull hwn a amlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
		amseriad yr ailbrisiad yng Nghymru yn cyd-fynd â'r un yn Lloegr a bod prisiadau'n cael eu gwneud mewn modd cyson.
Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) 2019 (Daeth y Bil i ben pan ohiriwyd Senedd y Deyrnas Unedig, ond cafodd ei ailgyflwyno)	https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryChronology.aspx?lld=25775&Opt=2	Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Mae'r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi cael ei ddiystyru gan nad oes cyfle deddfwriaethol sylfaenol addas ar hyn o bryd a fyddai'n caniatáu i'r cyfraddau ar doiledau cyhoeddus gael eu dileu yng Nghymru ar yr un pryd ag yn Lloegr. Mae cynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil yn darparu cyfradd sero o atebolrwydd am doiledau cyhoeddus yng Nghymru a bydd yn lleihau'r gost o'u cynnal a gallai eu helpu i aros yn agored.
Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) 2020 (Cafodd y Bil ei ddisodli gan Ddeddf Ardrethu Annomestig (Rhestrau) 2021)	https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lld=28724	Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Mae angen llawer o waith paratoi ar gyfer rhestrau ardrethu newydd sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2021 ac i sicrhau bod trethdalwyr yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig. Mae'r cadarnhad o'r dyddiad prisio yn y ddeddfwriaeth yn darparu'r sail statudol ar gyfer y gwaith hwn. Mae'r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi cael ei ddiystyru oherwydd nad oes cyfle deddfwriaethol addas o fewn yr amserlen sy'n ofynnol i alluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gwblhau'r gwaith prisio angenrheidiol. Yn ogystal, byddai defnyddio Bil diweddarach gan Lywodraeth Cymru yn arwain at lai o sicrwydd i fusnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru yn y cyfamser. Byddai angen i Fil Llywodraeth Cymru gael ei osod, ei drafod, ei basio a'i ddechrau cyn diwedd mis Mehefin er mwyn i'r newidiadau fod yn weithredol ar gyfer mis Ebrill 2021. Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau Taladwy) (Cymru) 2016 a rhaid i'r rheoliadau diwygiedig hyn fod mewn grym erbyn 31 Rhagfyr 2020, neu ni fyddant yn weithredol fel arall. Bydd y Bil yn sicrhau bod amseriad yr ailbrisiad yng Nghymru yn cyd-fynd â'r un yn Lloegr a bod prisiadau'n cael eu gwneud mewn modd cyson.

Teitl y ddeddfwriaeth	Dolen at fanylion ynghylch cydsyniad deddfwriaethol	Y rheswm/rhesymau dros fabwysiadu'r dull hwn a amlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Deddf Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) 2021	https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=28394	Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Mae'r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi cael ei ddiystyru gan nad oes cyfle deddfwriaethol sylfaenol addas ar hyn o bryd a fyddai'n caniatáu i'r cyfraddau ar doiledau cyhoeddus gael eu dileu yng Nghymru ar yr un pryd ag yn Lloegr. Mae cynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil yn darparu cyfradd sero o atebolrwydd am doiledau cyhoeddus yng Nghymru a bydd yn lleihau'r gost o'u cynnal a gallai eu helpu i aros yn agored.
Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2) / Deddf Ardrethu Annomestig (Rhestrau) 2021	https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=29631&Opt=0	Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Mae angen llawer o waith paratoi ar gyfer rhestrau ardrethu newydd sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2023 ac i sicrhau bod trethdalwyr yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig. Mae'r cadarnhad o'r dyddiad prisio yn y ddeddfwriaeth yn darparu'r sail statudol ar gyfer y gwaith hwn. Mae'r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi cael ei ddiystyru oherwydd nad oes cyfle deddfwriaethol addas o fewn yr amserlen sy'n ofynnol i alluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gwblhau'r gwaith prisio angenrheidiol. Yn ogystal, byddai defnyddio Bil diweddarach gan Lywodraeth Cymru yn arwain at lai o sicrwydd i fusnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru yn y cyfamser. Bydd y Bil hefyd yn sicrhau bod amseriad yr ailbrisiad yng Nghymru yn cyd-fynd â'r un yn Lloegr a bod prisiadau'n cael eu gwneud mewn modd cyson.
Deddf Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmniau a Ddiddymwyd) 2021	https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=37958	Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gellir gwneud y newidiadau hyn. Mae'r posibilrwydd o wneud y newidiadau hyn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi cael ei ddiystyru gan nad oes cyfrwng deddfwriaethol addas yn cael ei gynllunio o fewn yr amserlenni sy'n angenrheidiol ar gyfer y darpariaethau hyn. Byddai defnyddio Bil diweddarach gan Lywodraeth Cymru yn arwain at ansicrwydd i fusnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru yn y cyfamser. Byddai hefyd yn arwain at oblygiadau ariannol sylweddol. Byddai angen i Fil Llywodraeth Cymru gael ei osod, ei drafod, ei basio a'i gychwyn er mwyn i'r newidiadau fod yn effeithiol yn ôl-weithredol. Byddai unrhyw oedi yn cynyddu'r baich gweinyddol ar drethdalwyr,

Teitl y ddeddfwriaeth	Dolen at fanylion ynghylch cydsyniad deddfwriaethol	Y rheswm/rhesymau dros fabwysiadu'r dull hwn a amlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
		Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac awdurdodau lleol Cymru. Byddai cydsynio i ddarpariaethau yn y Bil yn galluogi datrys y mater yn brydlon, gan alluogi targedu adnoddau'n well a galluogi cyflwyno cymorth wedi ei dargedu ar gyfer trethdalwyr y mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio'n negyddol arnynt. Byddai'r Bil yn sicrhau bod y ffordd mae apeliadau'n cael eu trin yng Nghymru yn cyd-fynd â'r un yn Lloegr ac y byddai trethdalwyr Cymru yn cael eu trin yn gyson.
Deddf Ardrethu Annomestig 2023	https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?lId=41256	Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gellir gwneud y newidiadau hyn. Mae'r posibilrwydd o wneud y newidiadau hyn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi cael ei ystyried. Mae'r newidiadau wedi cael eu nodi fel rhai sy'n addas i'w dilyn drwy Fil Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y sail y byddent yn fuddiol i'w rhoi ar waith cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Byddai aros am Fesur Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) arfaethedig Llywodraeth Cymru yn arwain at roi Llywodraeth Cymru a threthdalwyr yng Nghymru dan anfantais, a byddai aildrefnu Bil y Senedd yn cael effeithiau negyddol ehangach ar ein rhaglen ddeddfwriaethol.

Atodiad B

Adran o'r Bil	Darpariaeth yn y Ddeddf ddiwygiedig	Pŵer mewn perthynas â Chymru i (disgrifiad)	Gweithdrefn	Newydd neu ailddatgan
4	Adran 54AB(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988)	Diwygio adrannau 41ZA(3) a 52ZA(3) o Ddeddf 1988 er mwyn: (a) rhoi blwyddyn wahanol yn lle'r flwyddyn a bennir am y tro fel y flwyddyn ailbriso (b) mewnosod cyfeiriad at flwyddyn wahanol i'r flwyddyn a fyddai fel arall yn flwyddyn ailbriso (c) rhowch gyfnod gwahanol rhwng y blynyddoedd ailbriso yn lle'r bwlch a nodir yno am y tro (d) gwneud diwygiadau eraill sy'n ganlyniadol, neu'n gysylltiedig â'r diwygiadau a wnaed o dan baragraff (a), (b), neu (c)	Drafft cadarnhaol	Newydd
5(2)	Paragraff 8A(2)(b)(i) o Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988	Rhagnodi amodau i roi rhyddhad rhannol ychwanegol mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo a feddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 8B(2) o Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988	Rhagnodi amodau i roi rhyddhad llawn ychwanegol mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo a feddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 8C o Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988	Diwygio neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth yn Rhannau 2 a 3 o'r Atodlen at ddibenion amrywio neu dynnu'n ôl ryddhad a nodir yn y rhannau hynny mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo a feddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 9A o Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988	Diwygio paragraff 9 o'r Atodlen er mwyn darparu ar gyfer cyfrifo'r swm taladwy pan fo mwy nag un rhyddhad yn gymwys i hereditamentau rhestr leol eiddo a feddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 10(6A) o Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988	Rhagnodi gwerth "F" yn y fformiwla a ddefnyddir at ddibenion rhoi rhyddhad rhannol newydd mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo a feddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd
5(3)	Paragraff 2A(2)(b)(i) o Atodlen 4ZB i	Rhagnodi amodau i roi rhyddhad rhannol ychwanegol mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo nas meddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd

Adran o'r Bil	Darpariaeth yn y Ddeddf ddiwygiedig	Pŵer mewn perthynas â Chymru i (disgrifiad)	Gweithdrefn	Newydd neu ailddatgan
	Ddeddf 1988			
	Paragraff 2B(2) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988	Rhagnodi amodau i roi rhyddhad llawn ychwanegol mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo nas meddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 2C o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988	Diwygio neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 2 o'r Atodlen at ddibenion amrywio neu dynnu'n ôl ryddhad a nodir yn y rhan hwnnw mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo nas meddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 2E o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988	Diwygio paragraff 2D o'r Atodlen er mwyn darparu ar gyfer cyfrifo'r swm taladwy pan fo mwy nag un rhyddhad yn gymwys i hereditamentau rhestr leol eiddo nas meddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 3(5A) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988	Rhagnodi gwerth "F" yn y fformiwla a ddefnyddir at ddibenion rhoi rhyddhad rhannol newydd mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo nas meddiennir	Drafft cadarnhaol	Newydd
5(4)	Paragraff 4A(2)(b)(i) o Atodlen 5A i Ddeddf 1988	Rhagnodi amodau i roi rhyddhad rhannol ychwanegol mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo canolog	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 4B(2) o Atodlen 5A i Ddeddf 1988	Rhagnodi amodau i roi rhyddhad llawn ychwanegol mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo canolog	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 4C o Atodlen 5A i Ddeddf 1988	Diwygio neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 2 o'r Atodlen at ddibenion amrywio neu dynnu'n ôl ryddhad a nodir yn y rhan hwnnw mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo canolog	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 5B o Atodlen 5A i Ddeddf 1988	Diwygio paragraff 5A o'r Atodlen er mwyn darparu ar gyfer cyfrifo'r swm taladwy pan fo mwy nag un rhyddhad yn gymwys i hereditamentau rhestr leol eiddo canolog	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff 6(5A) o Atodlen 5A i Ddeddf 1988	Rhagnodi gwerth "F" yn y fformiwla at ddibenion rhoi rhyddhad rhannol newydd mewn perthynas â hereditamentau rhestr leol eiddo canolog	Drafft cadarnhaol	Newydd
9(2)	Paragraff 20A(1) o	Mewnosod, diwygio, dirymu neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth	Drafft	Newydd

Adran o'r Bil	Darpariaeth yn y Ddeddf ddiwygiedig	Pŵer mewn perthynas â Chymru i (disgrifiad)	Gweithdrefn	Newydd neu ailddatgan
	Atodlen 5 i Ddeddf 1988	yn yr Atodlen i roi, amrywio neu dynnu eithriad yn ôl	cadarnhaol	
10	Paragraff A16(1)(a) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988	Nodwch y disgrifiad o hereditamentau rhestr leol a fydd yn ddarostyngedig i luosydd gwahaniaethol	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff A16(1)(b) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988	Nodwch werth ardrethol hereditamentau rhestr ganolog i fod yn ddarostyngedig i luosydd gwahaniaethol	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff A16(2)(b) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988	Rhagnodi gwerth "N" at ddibenion cyfrifo lluosydd gwahaniaethol	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Paragraff A18(a) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988	Yn lle cyfeiriadau at y mynegai prisiau defnyddwyr mae cyfeiriadau at fynegai arall, at ddibenion cyfrifo'r lluosydd	Drafft cadarnhaol	Ailddatganiad (heb ei ddiwygio)
	Paragraff A18(b)(i) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988	Amnewid y ffigur ar gyfer B yn y fformiwla a ddefnyddir at ddibenion cyfrifo'r lluosydd	Drafft cadarnhaol	Ailddatganiad (heb ei newid)
	Paragraff A18(b)(ii) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988	Amnewid y ffigur ar gyfer C yn y fformiwla a ddefnyddir at ddibenion cyfrifo'r lluosydd	Drafft cadarnhaol	Ailddatganiad (heb ei newid)
13	Adran 63H(1)(a) o Ddeddf 1988	Nodi math o drefniant osgoi artiffisial i'w wrthweithio yn unol â'r darpariaethau yn adran 13 y Bil	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Adran 63M(1) o Ddeddf 1988	Darparu ar gyfer gosod cosb ariannol am fethu â thalu swm oherwydd gwrthweithio mantais a geir o wneud trefniant osgoi artiffisial	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Adran 63M(6) o Ddeddf 1988	Gosod uchafswm y gosb a bennir yn yr adran honno yn lle swm gwahanol	Drafft cadarnhaol	Newydd
17	Adran 5(4B)(a) a (b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Deddf 1992)	Diwygio neu ddisodli'r cyfrannau a'r bandiau a ddefnyddir mewn cyfrifiadau treth gyngor	Drafft cadarnhaol	Ailddatganiad (heb ei ddiwygio)

Adran o'r Bil	Darpariaeth yn y Ddeddf ddiwygiedig	Pŵer mewn perthynas â Chymru i (disgrifiad)	Gweithdrefn	Newydd neu ailddatgan
	Adran 5(4B)(c) a (d)	Diwygio'r band prisio a ddefnyddir fel pwynt canol mewn fformiwlâu a ddefnyddir o dan adrannau 36 a 47 o Ddeddf 1992 a ddefnyddir i gyfrifo swm y dreth gyngor sy'n daladwy	Drafft cadarnhaol	Newydd
18	Adrannau 6 a 9 o Ddeddf 1992	Rhagnodi pa bobl y dylid eu diystyru er mwyn pennu atebolrwydd ar y cyd ac unigol mewn perthynas â'r dreth gyngor	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Adran 11E o Ddeddf 1992	Gwneud rheoliadau i: (a) bennu'r lefelau a rhagnodi'r amodau neu'r meini prawf y mae'n rhaid eu cael er mwyn i ddisgownt fod yn berthnasol (b) pennu categorïau o breswylwyr a ddiystyrir at ddibenion disgownt	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Adran 11F o Ddeddf 1992	Rhagnodi dosbarthiadau o anheddau y caiff awdurdod bilio, drwy ddyfarniad, ddatgymhwyso neu ostwng disgownt mewn perthynas â nhw	Drafft cadarnhaol	Ailddatgan (gyda diwygiad)
19	Adran 13 o Ddeddf 1992	Darparu ar gyfer pobl sy'n atebol i dalu treth gyngor i dalu llai o dreth mewn rhai amgylchiadau	Negyddol	Newydd
21	Adran 22B(3C) o Ddeddf 1992	Diwygio is-adran (3B) er mwyn: (a) rhoi blwyddyn wahanol yn lle'r flwyddyn a bennir am y tro fel y flwyddyn ailbriso (b) mewnosod cyfeiriad at flwyddyn wahanol i'r flwyddyn a fyddai fel arall yn flwyddyn ailbriso (c) rhoi bwlch gwahanol rhwng blynyddoedd ailbriso (d) gwneud diwygiadau eraill i is-adran (3B) sy'n ganlyniadol, neu'n gysylltiedig â'r diwygiadau a wneir o dan baragraff (a), (b) neu (c)	Drafft cadarnhaol	Newydd
	Adran 22B(7A)(a) o Ddeddf 1992	Pennu dyddiad ac eithrio 1 Medi ar gyfer rhestr ddrafft a luniwyd o dan is-adran 22B(3A) i'w hanfon at awdurdodau gan y Swyddog Rhestru	Negyddol	Newydd
23	Amh	Gwneud darpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, trosiannol neu ddarpariaethau arbed fel sy'n ofynnol o ganlyniad i'r Bil	Drafft cadarnhaol i	Newydd

Adran o'r Bil	Darpariaeth yn y Ddeddf ddiwygiedig	Pŵer mewn perthynas â Chymru i (disgrifiad)	Gweithdrefn	Newydd neu ailddatgan
			ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, ond negyddol fel arall	
Paragraff 12(2)(m) o'r Atodlen	Paragraff 5F(A1) o Atodlen 9 i Ddeddf 1988	Gwneud rheoliadau ynghylch yr hysbysiadau y gellir eu cyhoeddi mewn perthynas â'r dyletswyddau hysbysu a gaiff eu hymestyn i Gymru gan adran 12 y Bil	Negyddol	Newydd
Paragraff 12(2)(n) o'r Atodlen	Paragraff 5FB o Atodlen 9 i Ddeddf 1988	Gwneud rheoliadau i gynyddu neu leihau swm unrhyw gosb a ddyroddir mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â'r dyletswyddau hysbysu a estynnir i Gymru gan adran 12 o'r Bil	Drafft cadarnhaol	Newydd